# CPS Dyfed Powys

# Asesiad o berfformiad cyffredinol

Rhagfyr 2005

Hybu gwelliant yng Nghyfiawnder Troseddol

HMcpsi
H M Crown Prosecution Service Inspectorate

## CYNNWYS

TUDALEN

| | | |
|---|---|---|
| A. | CYFLWYNIAD I'R BROSES ASESU PERFFORMIAD CYFFREDINOL | 2 |
| B. | DISGRIFIAD O'R ARDAL A LLWYTH ACHOSION | 3 |
| C. | CRYNODEB O DDYFARNIADAU | 4 |
| D. | AGWEDDAU DIFFINIOL | 7 |
| 1. | Gwneud penderfyniadau cyn-cyhuddo | 7 |
| 2. | Rheoli achosion y llysoedd ynadon | 10 |
| 3. | Rheoli achosion Llys y Goron | 13 |
| 4. | Sicrhau canlyniadau llwyddiannus | 16 |
| 5. | Ymdrin ag achosion sensitif a throsseddau casineb | 18 |
| 6. | Terfynau amser yn y ddalfa | 20 |
| 7. | Datgelu | 21 |
| 8. | Y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion | 23 |
| 9. | Cyflwyno achosion yn y llys a gwneud cynnydd gyda'r achosion hynny | 25 |
| 10. | Cyflawni newid | 27 |
| 11. | Rheoli adnoddau | 29 |
| 12. | Rheoli perfformiad er mwyn gwella | 31 |
| 13. | Arweinyddiaeth | 33 |
| 14. | Ennyn hyder y gymuned | 35 |
| ATODIAD A | DATA PERFFORMIAD | 37 |

## A. CYFLWYNIAD I'R BROSES ASESU PERFFORMIAD CYFFREDINOL

Canlyniad asesiad cyffredinol HMCPSI o berfformiad CPS Dyfed Powys yw'r adroddiad hwn ac mae'n cynrychioli llinell sylfaen ar gyfer monitro gwelliant.

Gwnaed asesiadau a dyfarniadau gan yr HMCPSI yn seiliedig ar asesiadau absoliwt a chymaradwy o berfformiad. Daeth y rhain o ddata cenedlaethol; hunanasesiad CPS; asesiadau HMCPSI; a thrwy asesiad o dan feini prawf a dangosyddion perfformiad da a nodir yn y fframwaith asesu perfformiad cyffredinol (OPA). Mae'r fframwaith hwn ar gael i bob Ardal.

Lluniwyd yr OPA drwy raddio perfformiad yr Ardal ym mhob categori naill ai fel 'Ardderchog' (lefel 4), 'Da' (lefel 3), 'Gweddol' (lefel 2) neu 'Gwael' (lefel 1) yn unol â'r meini prawf a amlinellir yn y fframwaith.

Mae'r arolygiaeth yn defnyddio model asesu penderfynedig ar sail rheolau ar gyfer asesu, a gynllunnir i roi amlygrwydd i'r graddau ar gyfer agweddau 'critigol' ar waith fel dulliau ysgogi ar gyfer y lefel perfformiad cyffredinol terfynol. Caiff yr agweddau critigol eu hasesu gan y graddau a ddefnyddir ar gyfer yr agweddau diffiniol eraill, er mwyn creu'r OPA.

Mae'r tabl ar dudalen 6 yn dangos perfformiad yr Ardal ym mhob categori.

Nid yw OPA yn arolygiad llawn ac mae'n wahanol i weithgaredd arolygu traddodiadol. Er ei fod wedi'i gynllunio i nodi agweddau cadarnhaol ar berfformiad a'r rhai y mae angen gwella arnynt, a hynny mewn modd cynhwysfawr, ceisia osgoi bod yn ddadansoddiad manwl o'r prosesau sy'n sail i berfformiad, a hynny'n fwriadol. Bydd y math hwnnw o archwiliad manwl, pan fo'i angen, yn rhan o'r rhaglen gweithgaredd arolygu wedi'i theilwra.

## B. DISGRIFIAD O'R ARDAL A LLWYTH ACHOSION

Mae CPS Dyfed Powys yn gwasanaethu'r ardal a gwmpesir gan Heddlu Dyfed Powys. Mae ganddo dair swyddfa, yng Nghaerfyrddin, Hwlffordd a'r Drenewydd. Lleolir Pencadlys yr Ardal (Ysgrifenyddiaeth) yn swyddfa Caerfyrddin.

Rhennir busnes yr Ardal yn ôl swyddogaeth. Mae tair Uned Cyfiawnder Troseddol (CJU) ar gyfer Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion, a'r Drenewydd, sy'n ymdrin ag achosion ym Mhowys. Mae'r rhain yn ymdrin â'r holl achosion yn y llysoedd ynadon. Ceir Uned Treialon (TU) yng Nghaerfyrddin sy'n ymwneud ag achosion yn Llys y Goron yn Nyfed. Ceir Uned Treialon hefyd ar gyfer achosion Llys y Goron ym Mhowys, sydd wedi'i lleoli yn y Drenewydd ac sy'n uned ar y cyd gyda'r CJU lleol. Dim ond nifer fach iawn o wrandawiadau achosion Llys y Goron a gynhelir yn Llys y Goron Caerfyrddin. Ymdrinnir â'r mwyafrif helaeth y tu allan i'r Ardal yn Llysoedd y Goron Abertawe, Caer, Merthyr Tudful, y Wyddgrug a Warrington.

Yn ystod 2004-2005, ar gyfartaledd, roedd yr hyn sy'n gyfartal â 57.29 aelod o staff llawn amser yn gweithio yn yr Ardal.

Mae manylion llwyth achosion yr Ardal yn y flwyddyn hyd fis Ebrill 2005 fel a ganlyn:

| Categori | Niferoedd yr Ardal | % Ardal o gyfanswm y llwyth achosion | % genedlaethol o gyfanswm y llwyth achosion |
|---|---|---|---|
| Cyngor cyn-cyhuddo i'r heddlu | 2,031 | 14.7 | 20.9 |
| Cyngor | 756 | 5.5 | 5.1 |
| Achosion diannod | 7,837 | 56.7 | 46.9 |
| Achosion neillffordd neu dditiol yn unig | 3,187 | 23.0 | 26.7 |
| Achosion llys eraill | 16 | 0.1 | 0.4 |
| **CYFANSWM** | **13,827** | **100%** | **100%** |

## C. CRYNODEB O DDYFARNIADAU

Mae Dyfed Powys yn perfformio'n dda o ran nifer o agweddau allweddol. Mae ganddo arweinyddiaeth gadarn ac ymrwymedig ac mae ei berfformiad yn Llys y Goron a'i waith achos yn y llysoedd ynadon o safon uchel. Ceir ymrwymiad cadarn i weithio'n lleol gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill, a amlygir gan y perfformiad cadarn yn erbyn nifer o dargedau allweddol. Mae gwella profiad dioddefwyr a thystion yn y system cyfiawnder troseddol wedi dod yn rhan sylfaenol o ethos yr Ardal. Mae cyflwyno'r Uned Gofal Tystion o dan y Cynllun Dim Tystion Dim Cyfiawnder eisoes yn dangos canlyniadau cadarnhaol.

Mae'r Ardal yn wynebu nifer o heriau, ac un o'r rhai mwyaf yw cwmpas daearyddol yr Ardal, sy'n cwmpasu bron hanner Cymru. Yn sgîl natur wledig y cymunedau a wasanaethir, a'r ffaith bod prif Ganolfannau Llys y Goron wedi'u lleoli y tu allan i'r Ardal, ceir nifer o broblemau logistaidd a phroblemau staffio.

Prin yw'r cynnydd a wnaeth yr Ardal o ran darparu proses gwneud penderfyniadau cyn-cyhuddo, ac o ganlyniad ni lwyddwyd i gyflawni buddiannau'r broses yn llawn a llesteiriwyd y cynnydd tuag at ei chyflwyno'n statudol. Erbyn hyn, mae'r holl asiantaethau perthnasol wedi cytuno ar amserlen ddiwygiedig, gyda cherrig milltir allweddol, i sicrhau y gweithredir y fenter allweddol hon yn awr.

Mae systemau a phrosesau yn yr Unedau Treialon a'r Unedau Cyfiawnder Troseddol yn sicrhau yr ymdrinnir ag achosion yn gyflym ac yn effeithiol drwy'r llysoedd. Cymerir camau i geisio gwella ansawdd ac amseroldeb ffeiliau'r heddlu ac mae'r Ardal yn darparu hyfforddiant i'r heddlu yn rheolaidd. Mae'r Ardal yn ceisio gwella'r defnydd a wneir o'r System Rheoli Achosion (CMS) gan yr holl staff.  Mae gan yr Ardal Hyrwyddwyr Ardal ac arbenigwyr priodol ar gyfer adolygu achosion sensitif, fodd bynnag ceir pryderon nad ymddengys fod systemau'r Ardal ar gyfer nodi achosion o'r fath yn ddigon diogel.

Mae'r Ardal yn cynnal adolygiadau trwyadl o'r holl ganlyniadau aflwyddiannus, a'r holl dreialon sy'n chwalu a threialon aneffeithiol, a rhennir y rhain gydag asiantaethau eraill a'u defnyddio i wella perfformiad. Mae hyn wedi cyfrannu at y ffaith bod yr Ardal yn perfformio'n dda yn erbyn targedau lleol a chenedlaethol. Gwelwyd cydweithio effeithiol hefyd ar fentrau penodol i wella perfformiad yn erbyn y targedau hyn. Sefydlwyd grŵp llywio ar y cyd yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r gostyngiad sylweddol yn nifer y troseddau y deuir â hwy gerbron y llys a'r gyfradd datrys a chosbi.

Mae gan yr Ardal weledigaeth glir o'i chyfeiriad a pha gamau y dylid eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Er mwyn cyflawni hyn, cyflwynodd newidiadau yn ddiweddar i'w mesurau cynllunio a pherfformiad, nad ydynt wedi'u hymgorffori'n llawn eto. Cymerwyd nifer o gamau hefyd i sicrhau y dilynir egwyddorion gwerth am arian yn yr Ardal, er nad oes polisi Ardal cyffredinol i ategu hyn. Dylai datblygiadau diweddar o ran systemau monitro cyllidebol gynorthwyo'r Ardal i reoli ei hadnoddau. Gwelwyd gwelliant sylweddol yn lefelau salwch yr Ardal.

Ar y cyfan, mae rhai agweddau cadarnhaol iawn ar berfformiad ac ymdrin â gwaith achos yn Nyfed Powys. Ceir tystiolaeth dda o arweinyddiaeth ymrwymedig a dull cadarn o gydweithio ac mae'r Ardal ar y trywydd cywir. Mae angen parhau i ganolbwyntio ar y gwaith o atgyfnerthu dull yr Ardal o reoli ei hadnoddau ariannol a sicrhau y gwneir cynnydd ar ddarparu'r broses gwneud penderfyniadau cyn-cyhuddo. Mae asesiad perfformiad cyffredinol yr Ardal yn weddol.

Asesiad perfformiad cyffredinol CPS Dyfed Powys.

| AGWEDDAU CRITIGOL | Level 1 - Gwael |
|---|---|
| Gwneud penderfyniadau cyn-cyhuddo | 1 - Gwael |
| Sicrhau canlyniadau llwyddiannus | 3 - Da |
| Arweinyddiaeth | 3 - Da |
| Y gwasanaeth i ddioddefwyr a thystion | 3 - Da |
| Rheoli adnoddau | 1 - Gwael |
| **AGWEDDAU DIFFINIOL ERAILL** | |
| Rheoli achosion y llysoedd ynadon | 3 - Da |
| Rheoli achosion Llysoedd y Goron | 3 - Da |
| Ymdrin ag achosion sensitif a throseddau casineb | 2 - Gweddol |
| Terfynau amser yn y ddalfa | 2 - Gweddol |
| Datgelu | 2 - Gweddol |
| Cyflwyno achosion yn y llys a gwneud cynnydd gyda'r achosion hynny | 2 - Gweddol |
| Cyflawni newid | 2 - Gweddol |
| Rheoli perfformiad i wella | 2 - Gweddol |
| Ennyn hyder y gymuned | 3 - Da |

| ASESIAD CYFFREDINOL | 2 - Gwenddol |
|---|---|

# D. AGWEDDAU DIFFINIOL

## 1. GWNEUD PENDERFYNIADAU CYN-CYHUDDO 1 - GWAEL

*Prin yw'r cynnydd a wnaeth yr Ardal ar ddarparu proses gwneud penderfyniadau cyn-cyhuddo (PCD) Ceir dealltwriaeth dda o'r cynllun presennol, a cheir rhywfaint o waith monitro o ran y prosesau adolygu a gwneud penderfyniadau, ac o ran cydymffurfiaeth gan yr heddlu a'r CPS â'r prosesau cytûn. Fodd bynnag, ni lwyddwyd i gyflawni buddiannau'r cynllun statudol yn llawn a llesteiriwyd y broses o'i gyflwyno yn sylweddol gan gyfyngiadau'r cynllun a'r prinder cyfleusterau, gan gynnwys diffyg mynediad i'r System Rheoli Achosion (CMS), yn y canolfannau cyhuddo. Mae'r Grŵp Llywio Cyhuddiadau lleol yn awr yn trefnu rhaglen strwythuredig i alluogi'r Ardal i gyrraedd y dyddiad diwygiedig ar gyfer cyflawni'r cynllun statudol.*

**1A: Mae'r Ardal yn sicrhau bod y gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau cyn-cyhuddo yn gweithredu'n effeithiol yng nghanolfannau cyhuddo'r Ardal**

- Rhoddir cyngor cyn-cyhuddo yn ddyddiol gan un cyfreithiwr i'r tair Canolfan Mae nifer yr ystafelloedd yn y gorsafoedd heddlu ychydig yn brin, ac nid oes gan rai canolfannau ystafelloedd cyhuddo penodedig eto. O ganlyniad, nid oes mynediad ar hyn o bryd i CMS yn unrhyw un o Ganolfannau cyhuddo'r Ardal. Ni ddyrennir Rhifau Cyfeirio Unigryw (URN) hyd nes y pennir cyhuddiad ar gyfer yr achos.

- Cafwyd rhai gwallau wrth gofnodi data dirwyn i ben mewn achosion PCD, yr ymchwiliodd yr Ardal iddynt - dylai systemau monitro sicrhau yn awr na fydd hyn yn digwydd eto.

- Mae'r cynnydd tuag at gyflwyno'r cynllun yn statudol yn achosi problemau mawr o ganlyniad i natur gyfyngedig y cynllun a weithredir ar hyn o bryd yn yr Ardal. Yn dilyn adolygiad diweddar gan Swyddfa'r Rhaglen Gyhuddo, mae'r Grŵp Llywio Cyhuddo Ardal yn cynllunio amserlen strwythuredig o hyfforddiant a datblygiad i gynorthwyo'r Ardal i gyflwyno'r cynllun yn statudol.

**1B: Mae'r Ardal yn sicrhau bod yr holl gyhuddiadau y rhoddir cyngor arnynt yn unol â chanllawiau'r Cyfarwyddwr, y Cod, safonau cyhuddo a chanllawiau polisi, a'u bod yn cael eu dogfennu a'u cofnodi'n gywir**

- Darparwyd hyfforddiant helaeth a chanllawiau gweithredol ar y cynllun presennol i bob cyfreithiwr ac i'r heddlu, a throsglwyddir materion yn ymwneud â'r cynllun i staff drwy gyfrwng cyfarfodydd tîm ac e-bost. Ceir tystiolaeth bod gan gyfreithwyr wybodaeth lawn am y cynllun a weithredir ar hyn o bryd, ond mai prin oedd y ddealltwriaeth o'r canllawiau cenedlaethol.

- Mae'r system ar gyfer cyfeirio anghytundebau yn ddealledig a chaiff ei gweithredu'n effeithiol.

*Agweddau i wella arnynt*

- Nid yw'r system bresennol o samplu achosion penderfyniad cyn-cyhuddo ar hap yn cynnwys asesiad o'r cyngor o safon a ddarperir. Gwneir hyn yn rhannol drwy'r dadansoddiad CQA, ond mae angen iddo ganolbwyntio mwy ar achosion penderfyniad cyn-cyhuddo er mwyn sicrhau bod yr achosion hyn yn cael eu Gyhuddo yn yr Ardal. Rhoddir y cyngor wyneb yn wyneb yn un o'r canolfannau cyhuddo ar sail gylchdroadol gytûn, a rhoddir cyngor dros y ffôn i'r canolfannau eraill yn ôl yr angen.

- Defnyddia'r Ardal restrau llysoedd Narey i asesu nifer yr heddlu sy'n manteisio ar y cynllun yn briodol a dengys fod yr heddlu yn ceisio cyngor cyn-cyhuddo mewn 80% o'r holl achosion perthnasol.

- Prin fu'r achosion o samplu achosion PCD ar hap gan yr Hyrwyddwr Cyhuddo i asesu cydymffurfiaeth â'r prosesau Ardal cytûn. Mae'r Ardal yn bwriadu sicrhau y gwneir gwaith monitro bob amser fel rhan o'r gwiriadau Sicrwydd Ansawdd Gwaith Achos (CQA).

*Agweddau i wella arnynt*

- Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn gyfyngedig i achosion mechnïaeth diamod, gyda chytundeb mai dim ond mewn achosion lle mae'r heddlu yn barod i gyhuddo y rhoddir cyngor. Caiff hyn effaith ddifrifol ar allu'r Ardal i roi cyfarwyddwyd i gwblhau achosion yn gynnar o ran yr achosion mwy difrifol, ac mae perygl clir iawn hefyd y bydd yr heddlu yn gwastraffu eu hadnoddau yn paratoi achosion, nad ydynt yn arwain at erlyniad yn y pen draw. monitro'n drwyadl. Mae ffurflen ansawdd ffeil yr heddlu newydd (TQ1) yn cael ei drafftio i gynorthwyo'r broses fonitro.

**1C: Gall yr Ardal ddangos buddiannau ei chyfranogiad yn y broses gwneud penderfyniadau cyn-cyhuddo**

- Trafodir cydymffurfiaeth â'r cynllun a nifer y bobl sy'n ymgymryd â'r cynllun yn rheolaidd mewn cyfarfodydd Grŵp perfformiad Rhanbarthol ac Ardal. Mae perfformiad Ardal yn rhan o becyn perfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB) lle y gwneir asesiad o effeithiolrwydd a gweithrediad y cynllun.

- Codwyd materion ynglŵn â diffyg goruchwyliaeth gan yr heddlu mewn rhai canolfannau cyhuddo, a chafwyd rhywfaint o welliant o ran cydymffurfio â'r cynllun.

*Agweddau i wella arnynt*

- Effeithiwyd ar ddata perfformiad ardal yn y llysoedd ynadon yn sgîl cam-gofnodi rhai o'r canlyniadau. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau'r cynllun presennol yn cyfyngu ar fuddiannau cyfranogiad yr Ardal yn y PCD. Ar hyn o bryd ni chaiff y buddiannau disgwyliedig eu gwireddu, er y gallai hyn, yn rhannol, fod o ganlyniad i'r nifer fach o achosion sy'n derbyn cyngor o'r fath.

## 2. RHEOLI ACHOSION Y LLYSOEDD YNADON 3 - DA

*Mae prosesau llysoedd ynadon yn sicrhau bod achosion yn barod i gael eu cyflwyno mewn gwrandawiadau llys. Defnyddir tystiolaeth o ansawdd gwael ffeiliau'r heddlu i wella amseroldeb ac ansawdd y broses o gyflwyno ffeiliau. Ceir dadansoddiad trylwyr gan yr Ardal ac ar y cyd o'r holl dreialon sy'n chwalu a threialon aneffeithiol, sy'n cyfrannu'n sylweddol at berfformiad uchel yr Ardal yn erbyn targedau lleol a chenedlaethol. Rhoddir blaenoriaeth i achosion ieuenctid ac mae'r Ardal wedi cyflawni ei tharged PYO lleol yn gyson ac wedi rhagori ar y targed cenedlaethol o 71 diwrnod. Mae'r defnydd o'r System Rheoli Achosion (CMS) yn gwella a chaiff ei fonitro gan yr Ardal ond dim ond yn ddiweddar y dechreuwyd defnyddio swyddogaethau CMS i wneud cynnydd effeithiol gydag achosion ac i fonitro tasgau allweddol. Ar hyn o bryd, nid yw rheolwyr yn defnyddio'r swyddogaethau cofnodi ar CMS neu ar y System Gwybodaeth Rheoli (MIS) yn llawn.*

### 2A: Mae'r Ardal yn sicrhau y gwneir cynnydd gydag achosion ym mhob ymddangosiad llys

- Gwnaed ymdrechion i sicrhau y gwneir cynnydd gydag achosion yn yr ymddangosiad llys cyntaf gan gynnwys system ar gyfer sicrhau argaeledd tystiolaeth CCTV. Roedd yr Ardal yn monitro cyfraddau pleon euog tro cyntaf; mae hyn bellach wedi'i ymgorffori yn y gwaith o fonitro achosion Penderfyniadau Cyn-cyhuddo.

- Mae'r Ardal yn rhagweithiol o ran sicrhau bod ffurflenni ansawdd ffeiliau'r heddlu (TQ1s) yn cael eu cwblhau, er mwyn gwella safon ffeiliau'r heddlu. Trafodir ansawdd ffeiliau'r heddlu mewn nifer o grwpiau perfformiad lleol ac Ardal a cheir rhyw arwydd o welliant. Cynhaliwyd hyfforddiant helaeth hefyd gyda'r heddlu, i'w cynorthwyo yn y broses o baratoi a chyflwyno ffeiliau yn brydlon ac yn gywir.

- Ceir defnydd da o gysylltiadau electronig gyda'r heddlu a'r llysoedd i gyflymu'r broses o drosglwyddo gwybodaeth.

- Dosberthir bwletin cyfreithiol rheolaidd i bob aelod o staff perthnasol dros yr e-bost.

- Darparwyd hyfforddiant gloywi yn ddiweddar i bob cyfreithiwr ar y Ddeddf Elw Troseddau a cheir tystiolaeth bod rheolwyr yn amlygu pwysigrwydd ystyried achosion priodol yn gynnar drwy e-bost a chyfarfodydd tîm.

- Ceir tystiolaeth bod rhai swyddogaethau cynnydd ar achosion yn cael eu cyflawni ar fathau penodol o achosion, er bod cyfarfodydd i drafod achosion yn achlysurol. Datgelodd dadansoddiad CMS fod nifer o ohiriadau ar gyfer Adolygiad Cyn Treial ar rai achosion. Mae'r Uned Gofal Tystion wedi cymryd y cyfrifoldeb dros y materion gofal tystion ac mae'r Ardal newydd lansio Rhaglen Rheoli Treialon Effeithiol (ETMP).

- Rhoddir blaenoriaeth effeithiol i achosion Troseddwyr Ifanc Cyson (PYO), ac mae'r Ardal yn cwrdd â'r targedau cenedlaethol a lleol. Er y cafwyd rhywfaint o lithriant yn ddiweddar, mae perfformiad yr Ardal yn parhau i fod yn sylweddol uwch na'r darlun cenedlaethol.

*Agweddau i wella arnynt*

- Gallai mwy o ddefnydd a defnydd mwy effeithiol o'r cynllun Sicrwydd Ansawdd Gwaith Achos yn yr Unedau Cyfiawnder Troseddol (CJU) gyfrannu at well perfformiad wrth ymdrin â gwaith achos a gallai gynorthwyo i nodi gwendidau megis defnydd gwael o CMS. Trafodir hyn ymhellach yn 12D.

- Ceir rhywfaint o dystiolaeth o CMS, ac o ddata perfformiad Ardal, i nodi nad yw achosion bob amser yn dirwyn i ben ar y cyfle cyntaf posibl.

**2B: Mae'r Ardal yn cyfrannu'n effeithiol at leihau nifer y treialon sy'n chwalu a threialon aneffeithiol**

- Mae perfformiad yr Ardal o ran lleihau nifer yr achosion sy'n chwalu ac achosion aneffeithiol yn sylweddol well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Caiff hyn ei ategu gan ddealltwriaeth effeithiol gan holl gyfreithwyr ac asiantau'r Ardal o bwysigrwydd mynd ymlaen ag achos i dreial lle bynnag y bo'n bosibl, ac atgyfnerthir hyn yn rheolaidd mewn cyfarfodydd tîm ac mewn adolygiadau perfformiad unigol.

- Mae'r Ardal yn monitro ac yn dadansoddi pob gwrandawiad treial sy'n chwalu a threial aneffeithiol yn systematig, ac mae Penaethiaid Unedau a'r CCP yn craffu ar adroddiadau cyfreithwyr unigol.

- Caiff treialon sy'n chwalu a threialon aneffeithiol eu dadansoddi ar y cyd a'u monitro o ran perfformiad yn fisol mewn nifer o fforymau CJS lleol.

- Ceir tystiolaeth bod gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu rhwng adrannau a'u bwydo yn ôl i staff drwy negeseuon e-bost a chyfarfodydd tîm.

**2C: Mae'r Ardal yn dangos bod CMS yn cyfrannu at reoli achosion yn effeithiol**

- Mae perfformiad yr Ardal yn erbyn y darlun cenedlaethol o ran y defnydd o CMS yn cyfateb â'r cyfartaledd neu'n uwch na'r cyfartaledd ym mhob agwedd.

- Mae'r AMT wedi pennu targedau i wella'r defnydd o CMS, ac mae rheolwyr yn ymwybodol o'r data a ddefnyddir ar hyn o bryd.

*Agweddau i wella arnynt*

- Ar hyn o bryd, er bod CMS yn cael ei defnyddio, nid yw'r holl staff yn cofnodi digwyddiadau allweddol mewn achosion, a cheir tystiolaeth mai dim ond cyfeirio'r darllenydd at y ffeil bapur a wnaiff nifer o ardystiadau adolygiad ffeil llawn.

- Prin yw'r dystiolaeth o fonitro tasgau sydd heb eu cyflawni ac olrhain achosion lle y bo'n briodol ar hyn o bryd, ond, gyda chymorth y Pencadlys, mae'r Ardal bellach yn edrych ar eu cyfluniadau a'u gosodiadau ar gyfer rhestrau tasgau, i'w galluogi i ddechrau gwaith monitro effeithiol. Nid oes unrhyw dempledi Ardal wedi'u hychwanegu at y system.

- Mae'r Ardal yn cydnabod bod angen iddynt wella'r gwiriadau rheoli CMS a wneir a phrin yw'r dystiolaeth bod swyddogaethau cofnodi CMS a MIS yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.

## 3. RHEOLI ACHOSION LLYS Y GORON 3 - DA

*Mae systemau ardal yn sicrhau bod amseroldeb adolygiadau a'r dull o ymdrin ag achosion yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer yr Ardal. Mae prosesau dyrannu effeithiol yn cynorthwyo'r gwaith o fonitro a gwneud cynnydd ar achosion. Craffir yn fanwl ar bob treial sy'n chwalu neu dreial aneffeithiol a rhennir unrhyw wersi a ddysgir. Mae hyn yn cyfrannu at y lefelau uchel o berfformiad yn erbyn y targedau lleol a chenedlaethol. Cynhelir gwiriadau rheoli ffeiliau ardal yn rheolaidd a cheir tystiolaeth eu bod yn cael eu defnyddio i wella'r dull o ymdrin ag achosion gan dimau a chan unigolion. Yn ddiweddar, mae'r Ardal wedi darparu hyfforddiant gloywi Deddf Elw Troseddau (POCA) i bob aelod o staff perthnasol, a darperir y wybodaeth gyfreithiol a gweithdrefnol ddiweddaraf yn rheolaidd dros yr e-bost a thrwy gyfarfodydd tîm. Mae rheolwyr yn ymwybodol o dargedau defnyddio'r System Rheoli Achosion (CMS) a cheir tystiolaeth y gwneir ymdrech i gynyddu'r defnydd o CMS gan gyfreithwyr. Nid yw swyddogaethau olrhain achosion a chofnodi allweddol yn cael eu defnyddio'n llawn ar hyn o bryd ac nid yw rheolwyr yn defnyddio swyddogaethau cofnodi CMS a'r System Gwybodaeth Rheoli (MIS). Dylai gwaith diweddar gyda'r pencadlys i gyflunio rhestrau tasgau perthnasol a thempledi Ardal sicrhau gwelliant yn hyn o beth.*

**3A: Mae'r Ardal yn sicrhau y gwneir cynnydd gydag achosion ym mhob ymddangosiad llys**

- Mae'r Ardal yn monitro ei pherfformiad ar gyfer cyflwyno papurau traddodi a briffiau yn brydlon i'r cwnsler ac mae'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o ran y ddwy agwedd hon. Mae'r Ardal hefyd yn cydymffurfio ag amserlen dynn ar gyfer cyflwyno papurau erlyn mewn achosion a ddanfonwyd. Ceir tystiolaeth y caiff achosion eu dyrannu ac yr ymdrinnir â hwy yn brydlon.

- Gwneir yr holl waith dadansoddi Sicrwydd Ansawdd Gwaith Achos (CQA) yr Unedau Treialon yn electronig a gwelwyd dadansoddiad CQA trylwyr ar y ffurflenni a gyflwynwyd, a darparwyd yr holl ddata i'r Pencadlys. Cafwyd tystiolaeth yr aethpwyd i'r afael â materion perfformiad, yn enwedig mewn perthynas â chyfarwyddiadau gwael i'r cwnsler.

- Gwneir PDH a gwiriadau cyn-treial effeithiol ar ffeiliau treialon gan gyfreithwyr Unedau Treialon; caiff y gwaith hwn ei ategu gan swyddogion cynnydd ar achosion penodedig sy'n mynychu Gwrandawiadau Ple a Chyfarwyddiadau (PDH) ac mae'n sicrhau yr ymdrinnir â phob gorchymyn llys ac unrhyw waith ychwanegol yn brydlon.

- Darparwyd hyfforddiant gloywi i bob cyfreithiwr ar POCA yn ddiweddar a cheir tystiolaeth bod rheolwyr yn amlygu pwysigrwydd ystyried achosion priodol yn gynnar drwy gyfrwng e-bost a chyfarfodydd tîm. Ceir perthynas dda a chydweithrediad da â'r ymchwilwyr ariannol a fynychodd yr hyfforddiant hefyd. Bu'r Ardal yn llwyddiannus o ran sicrhau 20 o orchmynion atafaelu yn 2004/05 a chafodd cyfanswm o £203,919 ei adfer. Cyrhaeddwyd y targed lleol.

- Mae gan yr Ardal systemau monitro penodol ar gyfer Troseddwyr Ifanc Cyson (PYO) ac achosion ieuenctid yn Llys y Goron a bydd yn pennu dyddiadau ac yn cynghori Llys y Goron fel y bo'n briodol.

*Agweddau i wella arnynt*

- Mae'r Ardal yn cydnabod bod ansawdd cyfarwyddiadau i'r cwnsler yn parhau i beri problem, er yr eir i'r afael â pherfformiad cyfreithwyr unigol yn hyn o beth drwy amcanion personol.

**3B: Mae'r Ardal yn cyfrannu'n effeithiol at leihau nifer y treialon sy'n chwalu a threialon aneffeithiol**

- Mae perfformiad yr Ardal wrth leihau nifer y treialon sy'n chwalu a threialon aneffeithiol yn Llys y Goron yn sylweddol well na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan yr Ardal y targed treialon aneffeithiol llymaf yn y wlad ac mae wedi llwyddo nid yn unig i gyrraedd y targed hwn, ond mae hefyd wedi rhagori 1.6% ar y targed. Caiff hyn ei ategu hefyd gan gyfradd isel iawn o dreialon sy'n chwalu.

- Paratoir adroddiadau misol ar bob achos sy'n arwain at dreial sy'n chwalu neu dreial aneffeithiol; gwnaed gwaith sylweddol gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol, cymerwyd camau gweithredu a hysbyswyd eraill ohonynt, ac mae'r perfformiad yn parhau i wella o ganlyniad.

**3C: Mae'r Ardal yn dangos bod CMS yn cyfrannu at reoli achosion yn effeithiol**

- Mae perfformiad yr Ardal yn erbyn y darlun cenedlaethol ar gyfer y defnydd o CMS yn cyfateb â'r cyfartaledd neu'n uwch na'r cyfartaledd ym mhob agwedd.

- Mae'r Tîm Rheoli Ardal (AMT) wedi pennu targedau i wella'r defnydd o CMS, ac mae rheolwyr yn ymwybodol o'r data a ddefnyddir ar hyn o bryd.

*Agweddau i wella arnynt*

- Ar hyn o bryd, er bod y CMS yn cael ei defnyddio, nid yw pob aelod o staff yn cofnodi digwyddiadau allweddol mewn achosion. Prin yw'r dystiolaeth o fonitro tasgau sydd heb eu cyflawni ac olrhain achosion lle y bo'n briodol ar hyn o bryd, ond, gyda chymorth y Pencadlys, mae'r Ardal yn awr yn edrych ar eu cyfluniadau a'u gosodiadau ar gyfer rhestrau tasgau er mwyn eu galluogi i ddechrau gwaith monitro effeithiol. Ychwanegwyd rhai templedi Ardal i'r system yn ddiweddar fel rhan o adolygiad parhaus o'r broses o wella'r defnydd o Compass.

- Mae'r Ardal yn cydnabod bod angen iddynt wella'r gwiriadau rheoli CMS a wneir a phrin yw'r dystiolaeth bod swyddogaethau cofnodi CMS yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd.

## 4. SICRHAU CANLYNIADAU LLWYDDIANNUS 3 - DA

*Mae'r Penaethiaid Uned yn monitro ac yn adolygu pob canlyniad aflwyddiannus; lle y bo'n briodol, rhennir y dadansoddiad hwn gydag asiantaethau eraill a'i ddefnyddio i wella perfformiad. Mae gan yr Ardal gyfradd canlyniadau aflwyddiannus gyfunol, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn er gwaethaf canran uchel iawn o ryddfarnau gan y rheithgor. Ceir tystiolaeth o gydweithio ar fentrau penodol i wella perfformiad yn erbyn y targedau. Sefydlwyd grŵp llywio ar y cyd yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r gostyngiad sylweddol yn nifer y troseddau y deuir â hwy gerbron y llys (OBTJ) a'r gyfradd datrys a chosbi.*

### 4A: Mae'r Ardal yn anelu at gynyddu nifer y canlyniadau llwyddiannus a lleihau lefel yr athreuliad ar ôl i'r achosion llys ddechrau

| CANLYNIAD | FFIGUR YR ARDAL | CYFARTALEDD CENEDLAETHOL |
|---|---|---|
| **Llysoedd ynadon** | | |
| Achosion sy'n dirwyn i ben ac achosion rhwymo | 12.3% | 12.5% |
| Dim achos i'w gyflwyno | 0.2% | 0.3% |
| Gwrthodwyd ar ôl treial | 1.6% | 1.5% |
| Traddodebau a ryddheir | 0% | 0.3% |
| Cyfradd collfarnu gyffredinol | 84.0% | 80.8% |
| **Llys y Goron** | | |
| Rhyddfarnau a orchmynnwyd gan farnwr | 12.1% | 14.2% |
| Rhyddfarnau a gyfarwyddwyd gan farnwr | 1.3% | 2.0% |
| Rhyddfarnau ar ôl treial | 16.3% | 6.3% |
| Cyfradd collfarnu gyffredinol | 69.4% | 75.8% |

- Mae ffigur canlyniadau aflwyddiannus cyfunol yr Ardal yn sylweddol well na'r cyfartaledd cenedlaethol.

- Cynhelir dadansoddiad cynhwysfawr o bob canlyniad aflwyddiannus a rhennir y canlyniadau gyda'r heddlu lle y bo'n briodol. Mae'r Ardal yn sicrhau bod ffurflenni yn cael eu cwblhau bob amser.

- Gallai'r Ardal roi enghreifftiau clir o'r adegau yr aeth i'r afael â phroblemau a gweithdrefnau, a gyfrannodd at fethiant achos; hysbysir yr holl staff o bwyntiau dysgu drwy negesuon e-bost, cyfarfodydd tîm ac ym mwletin y CCP. Cafwyd enghreifftiau hefyd o fynd i'r afael â materion yn ymwneud â pherfformiad unigol.

- Barnwyd y bu menter ddiweddar ar y cyd rhwng y llysoedd, yr heddlu a'r CPS i leihau nifer y gwarantau nas gweithredwyd yn llwyddiannus - roedd gan yr Ardal gyfreithwyr a enwebwyd a oedd yn cwmpasu llysoedd gwarant penodedig ac yn gweithio i sicrhau bod ffeiliau gwarant a weithredwyd ar gael, gyda'r wybodaeth ddiweddaraf, i sicrhau y gellir gwneud cynnydd ar achosion.

*Agweddau i wella arnynt*

- Mae gan yr Ardal lefel uchel iawn o ryddfarnau gan reithgor, sef tua phedair gwaith y cyfartaledd cenedlaethol. Mae dadansoddiad o'r achosion hyn gan yr Ardal wedi datgelu bod nifer fawr o achosion nad oes fawr o dystiolaeth ategol o ganlyniad i natur y trosedd. Mae esboniad rhannol arall yn ymwneud â daearyddiaeth yr Ardal sy'n golygu y cynhelir y mwyafrif helaeth o wrandawiadau achosion Llys y Goron y tu allan i'r Ardal, sy'n arwain at deithiau hir i ddioddefwyr a thystion a threialon a gynhelir gerbron rheithgorau nad ydynt, o reidrwydd, yn gyfarwydd â materion lleol.

- Mae'r targed ar gyfer yr OBJT yn un a rennir ac a gaiff ei bennu drwy gyfeirio at yr ardal cyfiawnder troseddol. Prin yw gallu'r CPS i ddylanwadu ar y targed penodol hwn am ei fod yn cynnwys troseddau yr ymdrinnir â hwy gan warediadau nad ydynt yn erlyniadau. Mae'r CPS yn cyfrannu at hyn drwy reoli achosion i sicrhau bod nifer yr achosion a gaiff eu dirwyn i ben a chanlyniadau aflwyddiannus yn parhau yn isel. Cafodd targed OBTJ yr Ardal ei leihau'n sylweddol yn ddiweddar; o ganlyniad, mae perfformiad yr Ardal yn awr tua 500 o droseddau uwchlaw'r targed newydd. Fodd bynnag, nid ymddengys fod canlyniadau'r Ardal yn gwella, ac mae nifer y troseddau y deuir â hwy gerbron y llys yn parhau i ostwng yn dilyn llwyddiannau cynnar yn 2003. Dengys cyfradd datrys a chosbi'r Ardal rywfaint o welliant. Fodd bynnag, daw hyn ar ôl gostyngiad parhaus a sylweddol ers mis Mai 2003. Yn ddiweddar, sefydlodd yr LCJB is-grŵp OBTJ, sydd wedi cynhyrchu cynllun gweithredu i fynd i'r afael â hyn.

## 5. YMDRIN AG ACHOSION SENSITIF A THROSEDDAU CASINEB 2 - GWEDDOL

*Mae gan yr Ardal Hyrwyddwyr Ardal ac arbenigwyr priodol ar gyfer achosion sensitif ac arbenigol ac mae Penaethiaid Uneau yn sicrhau bod achosion o'r fath yn cael eu dyrannu a'u hadolygu'n briodol. Nid ymddengys fod systemau'r Ardal ar gyfer nodi achosion yn ddigon diogel, ac ni ddefnyddir system amlygu'r System Rheoli Achosion (CMS) yn briodol. Mae systemau ar waith i sicrhau nad yw troseddau casineb yn cael eu lleihau neu eu bod yn dirwyn i ben heb gael eu cyfeirio at y Penaethiaid Unedau. Mae rhai categorïau o achosion sensitif yn destun adolygiad dwy haen neu gyfeiriad, ac mae hyn yn rhoi sicrwydd bod y polisi yn cael ei gymhwyso'n briodol. Mae angen dadansoddi prosesau lleihau cyhuddiadau a chanlyniadau troseddau casineb yn ymwneud â hil er mwyn nodi'r angen i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau yn y system cyfiawnder troseddol leol.*

### 5A: Mae'r Ardal yn nodi ac yn rheoli achosion sensitif yn effeithiol

- Mae protocolau y cytunwyd arnynt gyda'r heddlu ar gyfer nodi ac ymdrin ag achosion sensitif.
- Caiff pob cyngor sensitif ac achosion a gyhuddwyd eu dyrannu gan y Penaethiaid Unedau a cheir rhestr lawn o hyrwyddwyr ac arbenigwyr Ardal. Dyrennir llysoedd arbenigol i gyfreithwyr a hyfforddir yn briodol gan y Penaethiaid Unedau.
- Mae achosion angheuol yn ymwneud â thraffig ffordd, a rhai categorïau eraill o achosion sensitif, yn destun adolygiad neu gyfeiriad dwy haen.
- Datgelodd y gwaith o ddadansoddi achosion sensitif ar CMS, a'r gwaith monitro canlyniadau gwrthwynebus yr Ardal y cyfeirir at bolisïau CPS a'u bod yn cael eu cymhwyso'n briodol.
- Cynrychiolir yr Ardal ar nifer o gyd-weithgorau, sy'n edrych ar y broses o ymdrin ag achosion sensitif a chymerodd ran mewn Cyd-Gynhadledd Troseddau Casineb Ardal yn ddiweddar.
- Caiff pob datblygiad cyfreithiol a gweithdrefnol newydd ar achosion sensitif ei drosglwyddo gan y CCP i'r Hyrwyddwr Ardal perthnasol i'w adolygu, ei weithredu a'i ledaenu. Mae systemau ardal yn sicrhau y caiff hyn ei fonitro hyd nes y rhoddir sicrwydd ei fod wedi'i ymgorffori. Cafwyd tystiolaeth bod diweddariadau a chanllawiau yn cael eu darparu i staff gan Hyrwyddwyr Ardal.

- Ceir polisi Ardal sy'n nodi y dylai'r Penaethiaid Unedau gytuno ar bob penderfyniad i ddirwyn achosion i ben neu i leihau cyhuddiadau mewn achosion troseddau casineb. Mae hyn yn rhoi sicrwydd iddynt bod y polisi'n cael ei gymhwyso'n briodol ac mae'n eu galluogi i ymdrin â materion yn ymwneud â pherfformiad unigol lle y bo'n ofynnol.

- Mae Hyrwyddwyr Ardal ac arbenigwyr yn weithredol mewn achosion unigol, ac o ran dadansoddi canlyniadau a darparu canllawiau ar ddiweddariadau cyfreithiol.

*Agweddau i wella arnynt*

- Mae'r Ardal yn cydnabod na chaiff achosion sensitif eu hamlygu bob amser ar CMS; ategwyd hyn gan ddadansoddiad CMS o achosion penodol, a ddatgelodd nifer o achosion a ddylai fod wedi eu hamlygu ond na wnaethpwyd hynny. Yn ogystal, dangosodd adroddiadau troseddau casineb y CMS lefelau isel iawn o amlygu troseddau casineb. Cred yr Ardal ei bod yn nodi pob achos sensitif ac arbenigol drwy ei phrosesau dyrannu ac adolygu, ond roedd y dystiolaeth i gefnogi hyn yn anecdotaidd.

- Dylid cynnal adolygiad cynhwysfawr o athreuliad a lleihau cyhuddiadau mewn achosion casineb hiliol er mwyn nodi'r angen am unrhyw gamau lleol ar y cyd i fynd i'r afael â hyn.

## 6. TERFYNAU AMSER YN Y DDALFA 2 - GWEDDOL

*Caiff y system Terfynau Amser yn y Ddalfa (CTL) ei rheoli'n foddhaol gan y rhai sy'n gyfrifol ym mhob uned, ac ni nodwyd unrhyw fethiannau yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Fodd bynnag, ni ddilynir cyfarwyddiadau Ardal ysgrifenedig ac nid oes dull clir o ardystio bod gwiriadau sicrwydd ansawdd wedi'u cynnal. Nid yw arnodiadau terfynau amser yn y ddalfa yn Llys y Goron yn glir a cheir rhywfaint o berygl o fethiant.*

**6A: Mae systemau'r Ardal ar gyfer terfynau amser yn y ddalfa yn cydymffurfio â chanllawiau CPS a chyfraith achos gyfredol**

- Ni nodwyd unrhyw achos o fethiant o ran CTL yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

- Mae'r Ardal wedi siarad â Llysoedd Ynadon lleol i'w cynnwys yn y gwaith o gyfrifo dyddiadau dod i ben CTL yn gywir. Mae cydymffurfiaeth yn anghyson ac mae'r Ardal yn ceisio cael cytundeb ar gyfer protocol lleol drwy'r Grŵp Perfformiad Ardal.

- Mae'r Ardal yn diweddaru achosion CTL ar y system CMS a chaiff tasgau CTL eu rheoli'n dda. Dangosodd yr archwiliad o ffeiliau fod arnodiadau CTL y Llysoedd Ynadon yn dda a chaiff y camau gofalus a gymerir eu hamlygu gan y dull clir o arnodi eu ceisiadau a gynhelir yn Llys y Goron.

*Agweddau i wella arnynt*

- Mae gan yr Ardal system CTL ysgrifenedig sy'n cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol. Roedd hon yn cynnwys rhai agweddau ar arfer da, fodd bynnag, cafwyd tystiolaeth nad oedd y rhain yn cael eu defnyddio. Nid oedd y cyfarwyddiadau y dylid anfon llythyron i Lys y Goron, i gadarnhau dyddiad dod i ben y CTL i'w gytuno yn y gwrandawiad cyntaf, yn cael eu dilyn. Dylid diweddaru'r cyfarwyddiadau i sefydlu arfer cywir, cyfredol.

- Prin yw'r dystiolaeth bod uwch reolwyr yn ymwneud â'r gwaith o weithredu system CTL yr Ardal yn effeithiol. Ar hyn o bryd ymddengys mai dim ond drwy wiriadau Sicrwydd Ansawdd Gwaith Achos (CQA) y maent yn gysylltiedig. Ni chynhelir y gwiriadau sicrwydd ansawdd chwarterol gan yr Hyrwyddwr CTL, fel y disgrifiwyd yng nghyfarwyddiadau'r Ardal. Cynhelir gwiriadau rheolaidd gan B1 cyfrifol ym mhob uned, ond anaml y ceir tystiolaeth ysgrifenedig o'r rhain. Ni ddefnyddir deunydd a argreffir gan y System Rheoli Achosion (CMS) yn gyson i gysoni cofnodion dyddiadur. Ni ddiweddarir dyddiaduron bob amser gyda chanlyniadau achosion neu'r camau a gymerwyd.

- Er i ddyddiadau dod i ben gael eu cyfrifo'n gywir yn yr holl achosion o archwiliwyd, ni chawsant eu diweddaru bob amser yn y lle perthnasol ar ffeil Llys y Goron ar ôl caniatáu estyniadau neu mewn perthynas â chyhuddiadau gwahanol. Nid yw'r Ardal yn defnyddio dyddiadau gweithredu ffurfiol wrth fonitro.

- Mewn un achos Llys y Goron, nid oedd yn glir o'r arnodiadau pa gamau a gymerwyd yn dilyn cais ac roedd y gronoleg a ddarparwyd i'r Barnwr yn ddiffygiol.

- Darperir CTL ochr desg a hyfforddiant compass i aelodau newydd o staff ond byddai hyfforddiant gloywi i ailysgogi cydymffurfiaeth â chyfarwyddiadau'r Ardal, camau hanfodol a chanllaw arfer da o fudd i bob aelod o staff.

## 7. DATGELU 2 - GWEDDOL

*Canfu'r arolygiad dilynol o Ddyfed Powys ym mis Mawrth 2005 y bu gwelliant sylweddol yn y modd y mae'r Ardal yn ymdrin â deunydd nas defnyddir ers yr arolygiad diwethaf. Yn ddiweddar, mae'r Ardal wedi cynnal ymarfer hyfforddi cynhwysfawr i sicrhau bod yr holl erlynwyr a gweithwyr achos yn ymwybodol o'r gweithdrefnau newydd o dan CJA 2003. Nid yw dull yr Ardal o fonitro cydymffurfiaeth â gweithdrefnau datgelu wedi'i dargedu'n ddigonol at achosion penodol, a datgelodd archwiliadau ffeil ar y safle na chydymffurfir â Chyfarwyddiadau Gweithredol ar y Cyd (JOPI) bob amser.*

**7A: Mae'r Ardal yn cymryd camau i sicrhau y cydymffurfir â dyletswyddau datgelu'r erlyniad**

- Canfuwyd bod perfformiad yr Ardal mewn perthynas â datgelu wedi 'gwella'n sylweddol' yn Arolygiad Dilynol HMCPSI, a gynhaliwyd ym mis Chwefror 2005.

- Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod perfformiad erlynwyr mewn perthynas â dyletswyddau datgelu yn cael ei asesu gan reolwyr drwy'r system Sicrwydd Ansawdd Gwaith Achos (CQA). Fodd bynnag, roedd nifer o'r ffeiliau a ddewiswyd yn achosion nad oeddent wedi mynd rhagddynt i dreial a oedd felly yn cyfyngu ar swm y gwaith asesu y gellid ei wneud. Ni welwyd tystiolaeth bod ffeiliau sy'n cynnwys deunydd sensitif yn cael eu targedu'n rheolaidd ar gyfer dadansoddiad CQA.

- Darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf mewn nifer o Unedau drwy gyfrwng negeseuon e-bost ac mewn cyfarfodydd tîm, ac mae'r holl erlynwyr a gweithwyr achos wedi cael hyfforddiant ar ddarpariaethau datgelu CJA 2003 a Llawlyfr Datgelu'r CPS/ACPO. Cynhaliwyd hyn dros gyfnod o dri diwrnod ac roedd hefyd yn cynnwys hyfforddi rhai swyddogion yr heddlu.

*Agweddau i wella arnynt*

- Datgelodd dadansoddiad o nifer o ffeiliau ar y safle mai prin oedd y gydymffurfiaeth â'r JOPI. Roedd gan bob achos ac eithrio un ddeunydd nas defnyddiwyd wedi'i ffeilio ar wahân ac roedd y taflenni cofnodi datgeliad wedi'u cwblhau yn y mwyafrif o achosion. Er bod pob atodlen wedi'i harnodi, nid oedd arnodiad ar wahân ar gyfer pob un o'r eitemau a restrwyd ar yr atodlenni. Yn ogystal, nid oedd yr arnodiadau ar un o'r atodlenni sensitif yn egluro pam nad oedd angen gwrandawiad llys ar gyfer dogfennaeth sensitif.

## 8. Y GWASANAETH I DDIODDEFWYR A THYSTION 3 - DA

*Mae'r gwaith o wella profiad dioddefwyr a thystion yn y CJS wedi cael ei ymgorffori yn ethos yr Ardal. Mae'r broses o gyflwyno'r Uned Gofal Tystion o dan y Cynllun Dim Tystion Dim Cyfiawnder a gwaith cyson gyda'r partneriaid cyfiawnder troseddol, i leihau nifer y treialon sy'n chwalu a threialon aneffeithiol, yn dangos ymrwymiad yr Ardal.*

**8A: Ystyrir anghenion dioddefwyr a thystion yn llawn a cheir cysylltiad, gwybodaeth a chefnogaeth brydlon a phriodol drwy gydol y broses erlyn**

- Mae gweithdrefnau rhybuddio tystion yn effeithiol a chynhelir gwiriadau cyn-treial yn systematig er mwyn sicrhau cywirdeb.

- Mae cwmpas y Rhaglen Ardal ar gyfer yr Uned Gofal Tystion (WCU) ar y trywydd cywir, er mai dyddiau cynnar ydyw yn ei hanes. Mae'r prosiect wedi cyflawni ei gerrig milltir disgwyliedig ac, ar ôl adolygiad tri mis gan Dîm Canolog y CPS, canfuwyd bod gan y prosiect ddull 'gweithio mewn tîm ardderchog' a 'hyfforddiant manwl o safon'. Nid oes rhwystrau sylweddol i weithredu pellach ac mae'r cynllun gweithredu ar gyfer sicrhau datblygiadau yn y dyfodol eisoes yn mynd rhagddo.

- Ceir cysylltiad rheolaidd ac effeithiol gyda'r Gwasanaeth Tystion a Chymorth i Ddioddefwyr. Mae gan yr WCU gynrychiolydd gwasanaeth tystion sy'n gweithio ar yr uned un diwrnod yr wythnos, a chaiff hyn ei ariannu gan y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB). Yn ogystal, mae rheolwr yr WCU a Phenaethiaid Unedau yn mynychu cyfarfodydd pwyllgor Cymorth i Ddioddefwyr lleol. Nododd yr adolygiad o'r WCU fod lefel gynyddol o wybodaeth yn cael ei darparu i'r gwasanaeth tystion.

- Mae'r Ardal yn disgwyl i holl eiriolwyr yr erlyniad a staff y CPS yn y llys gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â dioddefwyr a thystion. Rhoddir cyfarwyddiadau penodol i asiantau ynglŵn â delio â thystion a'r gwasanaeth tystion. Ni chafwyd dull ffurfiol o fonitro cyfreithwyr ac asiantau'r CPS, ond mae rheolwyr yr Ardal yn sicr pe bai unrhyw broblemau gyda'r safonau eiriolaeth y byddent yn cael eu hysbysu'n anffurfiol o bryderon o'r fath mewn cyfarfodydd cyswllt lleol.

- Ceir dadansoddiad trylwyr gan yr Ardal ac ar y cyd gydag asiantaethau o'r holl dreialon sy'n chwalu a threialon aneffeithiol, gan gynnwys y rhai y gellir eu priodoli i broblemau gyda thystion. Mae ffurflenni adolygu'r CPS a ddarperir gan y llysoedd yn cynnwys gwybodaeth fanwl a chaiff materion sy'n ymwneud â phresenoldeb tystion eu trafod mewn grwpiau defnyddwyr llysoedd a Grwpiau Perfformiad Ardal a Rhanbarthol. Ymddengys fod y

cysylltiad hwn yn blaen ac yn effeithiol a cheir tystiolaeth bod camau cadarnhaol wedi'u cymryd o ganlyniad. Mae nifer y treialon sy'n chwalu a'r treialon aneffeithiol a achosir gan fethiant tystion yr erlyniad i fynychu'r achos yn well na'r cyfartaledd cenedlaethol yn y llysoedd ynadon ac yn Llysoedd y Goron.

- Gwnaed cynnydd sylweddol o ran lleihau'r amser y mae'n rhaid i dystion ei aros yn y llys cyn rhoi tystiolaeth yn ardal Dyfed Powys.

- Ceir tystiolaeth bod nifer o geisiadau Mesurau Arbennig yn cael eu hystyried yn yr ardal a'r gobaith yw datblygu'r gwaith hwn drwy fwy o gysylltiad â thystion o dan y cynllun NWNJ. Mae'r cynllun Cyfathrebu Uniongyrchol â Dioddefwyr (DCV) wedi'i ymgorffori'n gyffredinol ledled yr Ardal. Mae penaethiaid Unedau a'r CCP yn gwneud rhywfaint o waith monitro drwy adolygu achosion gwrthwynebus a sensitif. Mae gan yr Ardal gyfarwyddiadau clir ar gyfer drafftio llythyron i ddioddefwyr a cheir templedi pro forma ardderchog. Canfuwyd bod y llythyron a welwyd yn ystod yr OPA o safon uchel.

*Agweddau i wella arnynt*

- Er bod amseroldeb y gwaith o anfon llythyron DCV yn amrywio rhwng unedau, cyflawnodd yr Ardal gyfartaledd cyffredinol da yn ystod y chwarter diwethaf, sef 5 diwrnod. Ar hyn o bryd, er bod swm a phrydlondeb llythyron a anfonir gan gyfreithwyr unigol yn cael eu monitro'n benodol, nid oes dull monitro systematig i sicrhau yr ymdrinnir â phob achos priodol. Ni chaiff pob achos ei fonitro'n briodol ar y System Rheoli Achosion (CMS) ac roedd ffigurau dirwyn i ben yr Ardal yn ystod y chwarter diwethaf, yn sylweddol uwch na nifer yr achosion a dderbyniodd lythyr DCV. Er y disgwylir rhywfaint o amrywiaeth, mae hyn yn achosi pryder na fydd pob dioddefwr yn derbyn llythyron priodol.

## 9. CYFLWYNO ACHOSION YN Y LLYS A GWNEUD CYNNYDD GYDA'R ACHOSION HYNNY 2 - GWEDDOL

*Er gwaethaf anawsterau daearyddol, mae staff Ardal yn gweithio'n dda i sicrhau y caiff achosion eu dosbarthu i'r rhai a gyfarwyddir a'u bod ar gael yn y llys, yn brydlon. Wrth asesu blaenoriaethau ni wnaed unrhyw waith monitro eiriolaeth mewnol a dim ond ychydig o waith monitro asiantau a'r cwnsler a wnaed eleni, ond mae cynllun Busnes yr Ardal yn cynnwys trefniadau ar gyfer asesu eiriolaeth CPS yn ystod y flwyddyn i ddod.*

**9A: Mae'r Ardal yn sicrhau bod eiriolwyr yr erlyniad a staff yn mynychu'r llys yn brydlon, eu bod yn broffesiynol, wedi paratoi'n dda ac yn cyfrannu at wneud cynnydd effeithiol gydag achosion**

- Mae staff Ardal yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod erlynwyr a gyfarwyddwyd yn cael eu papurau mewn da bryd. Ers cryn dipyn o amser mae'r Ardal wedi cael system electronig o ddarparu ffeiliau, sef Narey, y tybir ei bod yn gweithio'n dda, ac sydd wedi helpu i oresgyn problemau logistaidd. Mae holl Benaethiaid yr Uned yn cwmpasu llysoedd o fewn eu hardal yn rheolaidd ac mae hyn yn eu galluogi i gynnal rhyw fath o asesiad o'r dull o ymdrin â ffeiliau a pherfformiad erlynwyr yn y llys.

- Fel arfer, dewisir eiriolwyr yr erlyniad ar gyfer pob llys drwy roi ystyriaeth lawn i'w profiad, eu harbenigedd a'u cymwysterau. Mae'r Ardal yn defnyddio canllawiau'r Cyd-bwyllgor Dethol Ardal ac yn cyfranogi yn y gwaith o fonitro'r cwnsler ar gyfer ailraddio o dan y cynllun hwn. Mae erlynwyr sydd wedi'u hyfforddi'n briodol yn cwmpasu'r rhan fwyaf o lysoedd arbenigol. Ni ddefnyddir erlynwyr llai profiadol i gwmpasu llysoedd Narey.

- Darperir pecyn cyfarwyddiadau cynhwysfawr a chlir i asiantau a'r cwnsler sy'n cynnwys cyfarwyddiadau ar weithdrefnau Ardal a chaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd gyda pholisïau newydd. Mae'r pecynnau ar fin cael eu diweddaru i gwmpasu canllawiau newydd y Rhaglen Rheoli Treialon Effeithiol (ETMP). Trafodir polisïau newydd a newidiadau cyfreithiol mewn cyfarfodydd siambr lle y caiff CPS De Cymru a CPS Dyfed Powys eu

- Mae'r Ardal yn cyfrannu at ymdrechion gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol i wella'r broses o wneud cynnydd ar achosion. Mae'r CPS wedi llofnodi'r Protocol ETMP ac mae wedi enwebu rheolwyr B1 mewn unedau i weithredu fel Swyddogion Cynnydd ar Achosion. Mae'r broses weithredu newydd ddechrau. Cyn y fenter hon, ymdriniwyd â'r broses o wneud cynnydd ar achosion drwy wiriadau adolygu cyn-treial a gwrandawiadau PTR.

- Mae system ffurfiol o gofrestru cwynion gan asiantaethau eraill ynghylch staffŵr erlyniad, a chred y Tîm Rheoli Ardal fod eu cysylltiad agos a phendant gyda phartneriaid CJS yn golygu y gellir codi unrhyw faterion ynglwn ag ymddygiad a pherfformiad gweithwyr achos a staff yr erlyniad yn anffurfiol ac ymdrin â hwy.

*Agweddau i wella arnynt*

- Ni chafodd cyfreithwyr mewnol eu monitro eleni, o ganlyniad i flaenoriaethau Ardal eraill. Mae'r Cynllun Busnes Ardal ar gyfer 2005/06 yn ei gwneud yn ofynnol bod dau lys fesul cyfreithwyr yn cael eu hasesu bob blwyddyn. Mae Penaethiaid Uned yn aml yn erlyn llysoedd lleol yn rheolaidd ac yn credu y caiff materion perfformiad eu nodi drwy gyfrwng y broses hon, a gallant ei defnyddio yn dilyn hynny i lywio'r system PAR. Yn ddiweddar, mae'r Ardal wedi cyflogi dau gyfreithiwr achlysurol, a darparwyd mentora penodol iddynt er nad oes unrhyw hyfforddiant eiriolaeth ffurfiol wedi'i gynnal eto.

- Ni cheir dull ffurfiol o fonitro asiantau na'r cwnsler, ac eithrio at ddibenion ailraddio fel y crybwyllwyd uchod. Mae'r Tîm Rheoli Ardal yn hyderus eu bod yn ymwybodol o berfformiad drwy adborth a dderbyniwyd yn anffurfiol gan staff y llys a phartneriaid CJS eraill. Yn ogystal, mae Penaethiaid Unedau a'r CCP yn rhoi cyfarwyddiadau dros y ffôn yn rheolaidd i asiantau a'r cwnsler yn y llys a chredant, drwy hyn, y gallant nodi materion lle ceir perfformiad da a pherfformiad gwael. Yn y gorffennol, mae'r Ardal wedi gwneud penderfyniadau i beidio â chyfarwyddo'r cwnsler ac asiantau penodol neu maent wedi rhoi'r cynrychioli.

## 10. CYFLAWNI NEWID 2 - GWEDDOL

*Mae gan yr Ardal weledigaeth glir o'i chyfeiriad a pha gamau y mae'n rhaid iddi eu cymryd i fynd i'r afael â hyn. Mae'n cymryd yr arweiniad mewn nifer o feysydd allweddol gyda phartneriaid a gellid ystyried ei bod yn ysgogi newid. Nid yw'r newidiadau diweddar i fesurau cynllunio a pherfformiad wedi'u hymgorffori eto, ac mae angen ffocws rheoli parhaus er mwyn sicrhau proses hyfforddi a datblygu systematig, sydd wedi'i chynllunio'n broffesiynol.*

### 10A: Mae gan yr Ardal ymdeimlad clir o ddiben a ategir gan gynlluniau perthnasol

- Mae gan yr Ardal ymdeimlad clir o'r hyn y mae am ei gyflawni ac mae'n mynegi'n glir fod Cynnydd o ran cyflawni'r broses gwneud penderfyniadau cyn-cyhuddo yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod ymhlith y rhaglenni newid eraill sydd ar waith ac sy'n mynd rhagddynt. Cafodd hyn ei hwyluso gan ddigwyddiad cynllunio a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Aberhonddu.

- Ceir ymrwymiad cadarn i weithio'n lleol gyda phartneriaid Cyfiawnder Troseddol eraill, gyda Phrif Erlynydd y Goron (CCP) yn cadeirio'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB). Caiff yr holl raglenni newid eu harwain gan grwpiau llywio cymysg o bartneriaid cyfiawnder troseddol, gan ddangos ymhellach yr ymagwedd bartneriaeth a fabwysiadir yn lleol. Mae hyn wedi dechrau dangos bod cynllunio ar y cyd yn arwain at rywfaint o lwyddiant.

*Agweddau i wella arnynt*

- Mae Cynllun Busnes Ardal ar waith ar gyfer 2005-06, sy'n glynu wrth ganllawiau'r Pencadlys, ac mae cerrig milltir allweddol wedi'u hymgorffori ynddo. Ar adeg yr asesiad, roedd yr Ardal wrthi'n cynhyrchu Cynlluniau Busnes Uned cysylltiedig. Cyn hyn, roedd Cynlluniau Uned, er eu bod yn mynd i'r afael yn gyffredinol â materion allweddol, yn anghyson o ran eu harddull a'u cynnwys. Yn ogystal, nid oedd tystiolaeth ar gyfer monitro canlyniadau perfformiad yn rheolaidd ac yn gorfforaethol drwy gyfarfodydd tîm y Tîm Rheoli Ardal (AMT) a'r Tîm Uned bob amser yn amlwg.

### 10B: Mae strategaeth rheoli newid gydlynus a chydgysylltiedig yn bodoli

*Agweddau i wella arnynt*

- Nid ymdriniwyd â newid eto yn systematig ar draws yr Ardal, a'r Cynllun Busnes Ardal yw'r prif offeryn sy'n cydgysylltu'r holl brosiectau a mentrau ar wahân. Y mater allweddol yw bod hon yn Ardal fach sy'n gorfod ysgogi a monitro nifer o fentrau ar wahân. O ganlyniad ceir cryn ddibyniaeth ar

berfformiad yn erbyn targedau allweddol i ddangos p'un a yw newid yn cael ei gyflawni'n effeithiol. Ceir rhywfaint o dystiolaeth y bu'r broses yn llwyddiannus, er enghraifft o ran perfformiad da yr Uned Gofal Tystion. Fodd bynnag, mae adolygiad diweddar o ddull yr Ardal o ymdrin ag achosion Penderfyniad Cyn-cyhuddo wedi arwain at ohirio'r gwaith o gyflwyno'r cynllun statudol.

- Mae adolygiad perfformiad diweddar wedi achosi'r Ardal i edrych yn ofalus ar ei strategaeth rheoli risg ac ailddrafftio'r fframwaith rheoli risg a'r gofrestr risgiau sy'n golygu y ceir llwybr archwilio clir yn awr ar risg a chydymffurfiaeth â pholisi cenedlaethol. Rhoddwyd rhai enghreifftiau hefyd lle yr oedd rheolwyr wedi ymateb yn brydlon i fynd i'r afael â phryderon ymhlith staff wrth iddynt godi.

**10C: Mae'r Ardal yn sicrhau bod gan staff y sgiliau, y wybodaeth a'r gallu i ddiwallu'r angen busnes**

- Rhoddwyd rhywfaint o hyfforddiant perthnasol i staff ledled yr ardal i helpu i gyflawni a gweithredu'r rhaglenni newid hyn. Ni fu absenoldeb Swyddog Dysgu a Datblygu i Gymru yn ystod 2004-05 o gymorth i'r gwaith o baratoi ar gyfer hyfforddiant, ac o ganlyniad ni chynhyrchwyd cynllun hyfforddi ffurfiol.

*Agwedd i wella arni*

- Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant a roddwyd i staff yn deillio o'r angen busnes a nodwyd drwy'r rhaglenni newid allweddol a gyflwynwyd. Fodd bynnag, caiff yr hyfforddiant hwn ei arwain gan gleientiaid, yn hytrach na chwsmeriaid. Am resymau ariannol darparwyd llawer o'r hyfforddiant hwn yn lleol, gan gyfyngu ar y cwmpas ar gyfer sicrwydd ansawdd a gwerthuso canlyniadau hyfforddiant. Er gwaethaf hyn, dengys data o'r Arolwg Staff fod staff yn nodi lefel boddhad ffafriol o ran yr hyfforddiant a gynigir.

## 11. RHEOLI ADNODDAU 1 - GWAEL

*Cymerwyd nifer o fesurau i sicrhau y dilynir egwyddorion gwerth am arian o fewn yr Ardal hon, er nad oes polisi Ardal cyffredinol i gefnogi hyn. Bydd datblygiadau diweddar o ran systemau monitro cyllidebol yn gwella'r broses rheoli. Fodd bynnag, mewn nifer o agweddau allweddol, fel y defnydd o Weithwyr Achos Dynodedig (DCW), arbedion Eiriolwyr Llysoedd Uwch (HCA), costau erlyn a'r gorwariant nas neilltuwyd yn benodol ar gyfer 2004/05, mae lle amlwg i wella.*

**11A: Mae'r Ardal yn ceisio sicrhau gwerth am arian, ac mae'n gweithredu o fewn y gyllideb**

- Mae'r Ardal wedi dechrau datblygu prosesau, sy'n dangos ethos gwerth am arian, er enghraifft defnyddio contractau adnewyddadwy ar gyfer gwaith prosiect a llogi bargyfreithwyr ac asiantau ar gontractau achlysurol tymor sefydlog dros gyfnod mamolaeth. Ar hyn o bryd nid oes polisi gwerth am arian penodol ar waith.

*Agweddau i wella arnynt*

- Gallai'r broses o gynllunio adnoddau fod yn fwy systematig, er bod tystiolaeth bod rhywfaint o waith yn cael ei wneud. Prin yw'r atebolrwydd i reolwyr gyflawni gwerth am arian. Y farn a fynegir yn gyffredinol yw nad oes diben adolygu unrhyw gamau pellach i ddirprwyo cyllidebau i reolwyr, am ei fod yn ymarfer di-fudd o ganlyniad i'r pwysau ariannol difrifol sydd ar yr Ardal.

- Prin yw'r dystiolaeth o waith monitro cyllidebol hanesyddol rheolaidd a chorfforaethol o fewn y Tîm Rheoli Ardal (AMT), er bod datblygiadau diweddar wedi arwain at ddiweddau'r gyllideb yn fisol. Mae'r Ardal wedi dioddef gwallau wrth fonitro costau erlyn o ganlyniad i absenoldeb tymor hir aelod o staff, ond eir i'r afael â hyn yn awr a chofnodwyd bod ffioedd yn cael eu talu'n gyflym.

- 102.3% oedd y gorwariant nas neilltuwyd yn benodol gan yr Ardal ar gyfer 2004-05, y bernir ei fod yn wael at ddibenion yr OPA.

**11B: Mae'r Ardal wedi sicrhau y caiff yr holl staff eu lleoli mewn modd effeithlon**

- Mae'r Ardal wedi gwneud ymdrech i adolygu dosbarthiad staff rhwng swyddfeydd yn ddibynnol ar lwyth gwaith ac angen busnes, ac i ddyrannu adnoddau fel y bo'n ofynnol i ateb y galw.

- Mae'r Ardal wedi cyflawni gwelliannau sylweddol o ran absenoldeb oherwydd salwch, ac mae eu perfformiad yn y maes hwn yn dda, sef 6.7 o ddiwrnodau fesul aelod o staff. Mae'n amlwg bod rheolwyr yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r mater hwn yn rheolaidd.

*Agweddau i wella arnynt*

- Ceir tystiolaeth dda o leihad yn y defnydd o asiantau, ac roedd ffigurau'r Ardal yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y llynedd. Fodd bynnag, 121.5% oedd cyfanswm gwariant yr erlyniad yn yr Ardal ar gyfer 2004-2005. Bernir bod hwn yn wael at ddibenion OPA.

- Mae'r defnydd o DCW yn isel mewn termau absoliwt at ddibenion yr OPA, sef 6.1% o sesiynau'r llysoedd ynadon, er i'r duedd yn 2004-05 ddangos ychydig o welliant. Mae gan yr Ardal 2 DCW ac yn 2004/05 bu iddynt gwmpasu 238 o sesiynau llysoedd ynadon. Mae'r Ardal yn fawr o safbwynt daearyddol, ac mae nifer o ganolfannau llys anghysbell, a llai o faint, yn cyfyngu ar y cyfleoedd ar gyfer llysoedd DCW o gymharu â rhai ardaloedd.

- Roedd arbedion HCA yn ystod chwarter olaf 2004-05 (£136) yn wael o gymharu ag amrediad data OPA. Mae'r Ardal wedi ceisio mynd i'r afael â hyn drwy wella'n sylweddol ar nifer y sesiynau a gynhaliwyd hyd yn hyn eleni. Mae nifer y canolfannau Llys y Goron dan sylw, a phellter teithio, unwaith eto, yn gosod rhai cyfyngiadau ar y defnydd o HCA.

## 12. RHEOLI PERFFORMIAD ER MWYN GWELLA 2 - GWEDDOL

*Caiff yr Ardal ei llywio gan berfformiad, ac mae'n glir ynghylch ei phrif amcanion. Mae ganddi systemau ar waith, mewn egwyddor, i sicrhau'r defnydd priodol o wybodaeth perfformiad i nodi ac i fynd i'r afael yn gyflym â thueddiadau gwael neu dueddiadau sy'n dirywio. Fodd bynnag, mae angen sicrhau gwelliannau pellach o ran perfformiad mewn perthynas â gwaith Eiriolwyr Llysoedd Uwch (HCA), gwaith Gweithwyr Achos Dynodedig (DCW), a chyllidebau gweinyddol na chawsant eu neilltuo'n benodol. Gall yr Ardal ddangos rhai tueddiadau sy'n gwella, a bu'n arbennig o lwyddiannus o ran gwella presenoldeb yn y gwaith.*

### 12A: Mae Rheolwyr yn atebol am berfformiad

- Mae'r Ardal wedi dangos ymrwymiad i reoli perfformiad, y gellir ei weld o gofnodion cyfarfodydd y Tîm Rheoli Ardal (AMT) a chyfarfodydd is-uned. Caiff hyn ei wella ymhellach gan dargedau perthnasol ac amcanion a geir o fewn Adroddiadau Arfarnu Perfformiad (PAR).

- Mae'r Ardal wedi cydnabod yr angen i fabwysiadu arddull a chynnwys corfforaethol ar gyfer materion rheoli perfformiad ac yn ddiweddar, lluniodd strwythur o gyfarfodydd tîm ffurfiol ar sail chwarterol gydag eitem agenda safonol yn cwmpasu materion perfformiad manwl. Dim ond unwaith y dilynwyd y strwythur hwn hyd yn hyn ac nid yw wedi cael ei ymgorffori eto.

*Agweddau i wella arnynt*

- Hyd yma, nid yw'r Ardal wedi datblygu dull clir, agored a chadarn lle caiff rheolwyr ar bob lefel eu dwyn i gyfrif yn glir am berfformiad yn erbyn targedau cytûn. Cydnabyddir y caiff mesurau perfformiad unigol eu pennu gan y CCP fel amcanion mewn PAR rheolwyr, ac y caiff yr e-bost ei ddefnyddio i nodi ac annog gweithredu mewn ymateb i berfformiad gwael neu berfformiad sy'n gwaethygu. Fodd bynnag, byddai strwythur mwy corfforaethol yn cynorthwyo'r math hwn o weithgaredd rheoli.

### 12B: Mae'r Ardal yn ymrwymedig i reoli perfformiad ar y cyd gyda phartneriaid CJS

- Ymddengys fod gweithgaredd rheoli perfformiad ar y cyd rhwng partneriaid cyfiawnder troseddol yn cael effaith ar lywio perfformiad, yn enwedig o amgylch targedau Troseddwyr Ifanc Cyson (PYO) a phrydlondeb y dull o ymdrin ag achosion, a materion gofal tystion.

- Ceir tystiolaeth o ddiwylliant cryf o weithio rhyngasiantaeth ar bob lefel, gyda lefelau da o rannu gwybodaeth ar draws asiantaethau drwy Swyddog Perfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB).

- Ceir cyfarfodydd Grŵp Perfformiad Ardal a Grŵp Perfformiad Rhanbarthol penodedig ac effeithiol, sy'n sail i drefniadau rheoli ar y cyd. Caiff y rhain eu hategu gan drefniadau gweithgorau thematig, gan gynnwys pynciau fel Trais yn y Cartref, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, a Chamerâu Goryrru.

*Agweddau i wella arnynt*

- Nid yw rhai meysydd gwaith eraill, er gwaethaf trefniadau gweithio ar y cyd, wedi cael effaith gadarnhaol ar berfformiad yn enwedig o ran targedau Troseddau y Deuir â Hwy Gerbron y Llys (OBTJ ), ac er bod yr Ardal yn cwrdd â'i tharged gostyngedig, mae perfformiad wedi lleihau'n sylweddol ers 2003/04.

**12C: Mae gwybodaeth perfformiad yn gywir, yn amserol, yn gryno ac yn ystyriol o ddefnyddwyr**

- Ystyrir gwybodaeth perfformiad gan yr AMT; fel y crybwyllwyd yn flaenorol, fe'i diwygiwyd yn ddiweddar, o ran cynnwys a chyflwyniad, er mwyn ystyried materion perfformiad mewn dull mwy corfforaethol. Trafodir perfformiad o fewn unedau fel arfer, ond mae hyn yn dueddol o fod yn fwy ad hoc o ran ei natur.

*Agweddau i wella arnynt*

- Nid oes unrhyw dasgau System Rheoli Achosion (CMS) lleol wedi'u datblygu eto er mwyn cynorthwyo gofynion monitro a gwybodaeth perfformiad lleol, er y bu'r Ardal yn gweithio'n ddiweddar gyda'r Pencadlys i weithredu ar hyn.

**12D: Mae systemau mewnol ar gyfer sicrhau ansawdd gwaith achos yn gadarn ac wedi'u seilio ar ddadansoddiad dibynadwy a chywir**

*Agweddau i wella arnynt*

- Er y gwneir defnydd da o ddadansoddiad Sicrwydd Ansawdd Gwaith Achos (CQA) yn yr Uned Treialon (TU), nododd data a oedd ar gael ar adeg yr arolygiad nad oedd y system CQA yn cael ei defnyddio'n ddigonol yn yr Unedau Cyfiawnder Troseddol (CJU), o ran lefelau cydymffurfiaeth a phrin oedd y gweithgaredd rheoli cydgysylltiedig i unioni'r materion a nodwyd. Aeth sylwadau personol gan reolwyr lleol yn groes i'r data a oedd yn ymwneud â swm y gweithgaredd sicrwydd ansawdd a gynhaliwyd, ond ni allent egluro'r anghysondeb. Mae potensial ar gyfer defnydd mwy penodedig a chadarn o'r system CQA o fewn yr Ardal.

- Prin oedd y dystiolaeth ffurfiol o graffu gan yr uwch reolwyr ar gyfarfodydd AMT o ran yr agwedd hon ar y gwaith, er y cyflwynwyd tystiolaeth anecdotaidd sy'n nodi bod y system wedi'i defnyddio ar sail ad hoc i fonitro ac i fynd i'r afael â meysydd unigol o waith datblygu.

## 13. ARWEINYDDIAETH 3 - DA

*Mae gan yr Ardal weledigaeth glir a set o werthoedd, y mae'n ceisio eu sefydlu o fewn pob uned ac ymhlith pob aelod o staff. Mae'r tîm o uwch reolwyr yn cynnal gweithgareddau â ffocws eangfrydig ar draws nifer o bartneriaid a rhanddeiliaid amrywiol. Bydd newidiadau diweddar i strwythur cyfarfodydd tîm yn mynd i'r afael â rhai diffygion blaenorol. Mae'r Ardal yn perfformio'n dda yn enwedig o ystyried yr anawsterau sylweddol yn sgîl daearyddiaeth leol.*

**13A: Mae'r tîm rheoli yn cyfleu gweledigaeth, gwerthoedd a chyfeiriad yr Ardal yn dda**

- Mae'r Tîm Rheoli Ardal (AMT) yn dîm cydlynol ac ymrwymedig a chanddo ddealltwriaeth glir o berfformiad, materion staffio a materion sy'n achosi pryder yn yr Ardal. Maent wedi cyhoeddi gweledigaeth a gwerthoedd yr Ardal, ac wedi rhannu'r rhain gyda'r staff; er mai dim ond yn ddiweddar y gwnaed hyn, mae'n anelu at fynd i'r afael â'r ffaith mai dim ond 22% o'r staff a arolygwyd yn ddiweddar a nododd eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.
- Lluniwyd rhaglen o ymweliadau â lleoliadau uned, ond mynegodd uwch reolwyr eu siom ynghylch y ffaith nad oeddent wedi bod yn ddigon amlwg hyd yma, er gwaethaf ymdrechion i sicrhau eu bod ar gael ar gyfer materion holl bwysig lle y bo'n briodol.
- Mae uwch reolwyr yn yr Ardal yn hybu mentrau allweddol ac yn gweithio i sicrhau gwelliannau yn y gwaith o gyflawni cyfiawnder troseddol ledled yr Ardal. Caiff y CPS ei gynrychioli ar bob grŵp llywio, perfformiad a menter Ardal, yn lleol ac yn rhanbarthol a chafwyd tystiolaeth o bresenoldeb a chyfranogiad rheolaidd.

*Agweddau i wella arnynt*

- Er bod cyfarfodydd tîm yn un o'r dulliau allweddol o ddatblygu corfforaeth fel yr amlygwyd yn flaenorol, hyd yn ddiweddar bu'r wybodaeth ynglŵn â chynnwys ac arddull y cyfarfodydd hyn yn anghyson. Mae'n aneglur p'un a ydynt wedi bod yn ffordd lwyddiannus o gyfathrebu. Yn yr arolwg staff diweddar, nododd llai o staff na'r arfer iddynt gael cyfarfodydd tîm effeithiol.
- Gall uwch staff yn yr Ardal ddangos ymrwymiad i weithgaredd eangfrydig. Fodd bynnag, byddai rôl rheolwyr canol yn elwa ar adolygiad o gyfrifoldebau gydag asiantaethau eraill i sicrhau dosbarthiad cyfartal o ran atebolrwydd a buddiannau busnes cysylltiedig.

**13B: Mae uwch reolwyr yn gweithredu fel modelau rôl ar gyfer moeseg, gwerthoedd a nodau'r Ardal a'r CPS, ac yn dangos ymrwymiad i bolisïau cydraddoldeb ac amrywiaeth**

- Mae'r Ardal yn dangos ei hymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ei pholisïau a'i harferion mewnol. Dangosodd arolwg diweddar o staff fod mwy o staff na'r cyffredin o'r farn y bu'r Ardal yn llwyddiannus o ran hyrwyddo urddas yn y gwaith. Mae rheolwyr ar bob lefel yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau eangfrydig ac, yn unigryw, yn cynnwys datblygu Grŵp Cynghori Annibynnol (IAG) llwyddiannus.

- Ar hyn o bryd nid yw'r Ardal yn adlewyrchu'r gymuned leol o ran y gymhareb o staff sy'n cynnwys pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae rheolwyr wedi dechrau cymryd camau i fynd i'r afael â hyn, yn enwedig drwy'r arbenigedd a ddarperir gan gyngor y Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar hysbysebu swyddi gwag.

- Mae'r Ardal wedi nodi uwch reolwr fel hyrwyddwr ar gyfer materion cydraddoldeb, ac mae deiliad y swydd honno yn cadeirio Pwyllgor Cydraddoldeb yr Ardal. Mae hwn yn fforwm llwyddiannus i fynd i'r afael â chyfrifoldebau unigolion a rheolwyr. Gall yr Ardal ddangos diwylliant, sy'n cefnogi unigolion i gael yr hyder i herio ymddygiad neu weithgaredd amhriodol.

## 14. ENNYN HYDER Y GYMUNED 3 - DA

*Drwy ei gwaith gyda swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth CPS Cymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB), a arweinir gan y CCP, mae'r Ardal wedi gwneud cynnydd da o ran creu cysylltiad â chynrychiolwyr cymunedau lleiafrifol a cheisio eu cyngor ar bolisïau ac arferion da. Mae'r Ardal yn ymwybodol o'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu ac, yn arbennig, yn darparu gwasanaeth da i drigolion sy'n siarad Cymraeg.*

### 14A: Mae'r Ardal yn rhagweithiol o ran ennyn hyder y gymuned

- Ceir ymrwymiad clir i wella hyder y cyhoedd a cheir tystiolaeth o weithgaredd ymgysylltu ehangach drwy waith y swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth dros Gymru a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB), a arweinir gan y CCP. Ceir cysylltiad effeithiol drwy'r Grŵp Cynghori Annibynnol (IAG) a thrwy'r gwaith o sefydlu Rhwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Dyfed Powys (DyPREN). Mae'r prosiect hwn wedi ennill dwy wobr genedlaethol. Mae cynllun busnes yr Ardal yn gwneud cysylltiadau clir rhwng gwaith i gysylltu â chymunedau lleol a phrosiectau penodol fel Dim Tystion Dim Cyfiawnder (NWNJ).

- Dengys Arolwg Troseddau Prydain, ym mis Rhagfyr 2004, fod gan 53% o'r rhai a holwyd hyder yn y System Cyfiawnder Troseddol yn Nyfed Powys. Mae'r ffigur hwn wedi codi'n raddol drwy gydol y flwyddyn o 46% ym mis Ebrill 2004 ac yn dangos lefel uchel o hyder o gymharu ag Ardaloedd eraill yng Nghymru a Lloegr.

- Mae'r Ardal wedi cymryd camau i ddeall y boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu drwy adolygiad o boblogaeth y cyfrifiad, a gomisiynwyd o Brifysgol Abertawe gan yr LCJB. Dengys dadansoddiad o'r wybodaeth hon nad oes grwpiau cymunedol lleiafrifol lleol penodol, ond bod teuluoedd wedi'u hynysu o fewn yr Ardal. Cynhaliwyd proses ymgynghori yn yr Ardal drwy waith yr LCJB a datblygir y gwaith hwn ymhellach drwy gyfrwng holiaduron a gomisiynwyd gan Brifysgol Abertawe i dargedu ymatebion gan y gymuned o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig lleol.

- Mae'r Ardal yn ystyried anghenion y gymuned sy'n siarad Cymraeg a gall ddarparu gwasanaeth mewnol ym mhob llys Cymraeg ei iaith. Er y cafwyd anhawster o bosibl yn flaenorol os nad oedd y CPS yn ymwybodol bod yn well gan dyst siarad Cymraeg, mae cyflwyno'r Uned Gofal Tystion yn mynd i'r afael â hyn fel na ddylai fod yn broblem mwyach. Cyhoeddir taflenni'r CPS a gwybodaeth arall yn Gymraeg a Saesneg.

- Cynlluniwyd a gweithredwyd gwelliannau mewn gwasanaethau, yn dilyn ymgynghoriad gyda'r Grŵp Cynghori Annibynnol, gan ystyried yr arfer yn yr Uned Gofal Tystion o ddefnyddio rhifau ffôn lleol a'r dulliau cysylltu y mae'n well gan dystion eu defnyddio. Cyfeiriwyd y broses o weithredu'r llysoedd Trais yn y Cartref a'r protocol Troseddau Casineb at yr IAG hefyd a cheisiwyd eu cyngor ar weithdrefnau cwynion, ac o ran gwaith pellach i ymgysylltu â'r gymuned.

- Mae'r Ardal wedi penodi swyddog cydraddoldeb ac amrywiaeth lleol ac mae newydd sefydlu Pwyllgor Cydraddoldeb i wella cysylltiadau ac i sicrhau y caiff safbwyntiau a syniadau staff eu hystyried. Mae'r Ardal wedi ceisio annog aelodaeth eang o raddau ac unedau gwahanol.

*Agweddau i wella arnynt*

- Mae'r Ardal wedi penodi arbenigwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ym mhob uned a Phennaeth Uned yw hyrwyddwr yr Ardal. Gwnaed rhai cysylltiadau gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Bartneriaeth Gostwng Troseddau ac Anhrefn ac mae'r CPS wedi cytuno i fynychu eu cyfarfodydd yn ôl y gofyn, er mwyn trafod materion perthnasol. Rhoddwyd rhai Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, ond nid yw'r defnydd o'r rhain wedi'i ymgorffori eto. Ceir cyfle i wneud mwy o waith rhagweithiol, mewn partneriaeth â'r sefydliadau hyn a'r gymuned leol, er mwyn sicrhau yr eir i'r afael â materion lleol ac y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r gwaith hwn ledled yr Ardal.

## ATODIAD A

# DATA PERFFORMIAD

## AGWEDD 1: GWNEUD PENDERFYNIADAU CYN-CYHUDDO

| ACHOSION Y LLYSOEDD YNADON | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfradd yr achosion sy'n dirwyn i ben | | | Cyfradd y pleon euog | | | Cyfradd athreuliad | | |
| Targed Cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad Cenedlaethol Ch4 2004-05 | Perfformiad Ardal Ch4 2004-05 | Targed Cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad Cenedlaethol Ch4 2004-05 | Perfformiad Cenedlaethol Ch4 2004-05 | Targed Cenedlaethol Mar 2007 | Perfformiad Cenedlaethol Ch4 2004-05 | Perfformiad Ardal Ch4 2004-05 |
| 11% | 16.3% | 17.2% | 52% | 68.8% | 65.1% | 31.0% | 22.7% | 22.0% |
| ACHOSION LLYSOEDD Y GORON | | | | | | | | |
| Cyfradd yr achosion sy'n dirwyn i ben | | | Cyfradd y pleon euog | | | Cyfradd athreuliad | | |
| Targed Cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad Cenedlaethol Ch4 2004-05 | Perfformiad Ardal Ch4 2004-05 | Targed Cenedlaethol Mawrth 2007 | Perfformiad Cenedlaethol Ch4 2004-05 | Perfformiad Cenedlaethol Ch4 2004-05 | Targed Cenedlaethol Mar 2007 | Perfformiad Cenedlaethol Ch4 2004-05 | Perfformiad Ardal Ch4 2004-05 |
| 11% | 14.6% | 14.8% | 68% | 66% | 51.8% | 23% | 23.8% | 29.6% |

## AGWEDD 2: RHEOLI ACHOSION Y LLYSOEDD YNADON

| CYFRADD Y TREIALON ANEFFEITHIOL | | | PERFFORMIAD CYFFREDINOL PYO (O ARESTIO I DDEDFRYDU) | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Targed Cenedlaethol | Perfformiad Cyffredinol 2004-05 | Perfformiad Ardal 2004-05 | Targed Cenedlaethol | Perfformiad Cenedlaethol (Cyfartaledd treigl 3 mis Chwefror 05) | Perfformiad Ardal (Cyfartaledd treigl 3 mis Chwefror 05) |
| 24.5% | 24.8% | 17.3% | 71 diwrnod | 67 diwrnod | 40 diwrnod |

| CYFNODAU AMSER/TARGEDAU AR GYFER ACHOSION TROSEDDOL YN Y LLYSOEDD YNADON ACHOSION A CHYHUDDIAD YN UNIG (MAWRTH 2005) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ple Euog Cychwynnol Targed 59 diwrnod | | Treialon Targed 143 diwrnod | | Traddodebau Targed 176 diwrnod | |
| | Achosion o fewn y targed (%) | Maint y sampl (Nifer y diffynyddion) | Achosion o fewn y targed (%) | Maint y sampl (Nifer y diffynyddion) | Achosion o fewn y targed (%) | Maint y sampl (Nifer y diffynyddion) |
| Cenedlaethol | 83% | 6,152 | 66% | 2,698 | 89% | 992 |
| Ardal | 79% | 58 | 87% | 15 | 100% | 3 |

| CYFNODAU AMSER/TARGEDAU AR GYFER ACHOSION TROSEDDOL YN Y LLYSOEDD IEUENCTID ACHOSION A CHYHUDDIAD A GWS YN UNIG (MAWRTH 2005) | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Ple Euog Cychwynnol Targed 59 diwrnod | | Treialon Targed 176 diwrnod | | Traddodebau Targed 101 diwrnod | |
| | Achosion o fewn y targed (%) | Maint y sampl (Nifer y diffynyddion) | Achosion o fewn y targed (%) | Maint y sampl (Nifer y diffynyddion) | Achosion o fewn y targed (%) | Maint y sampl (Nifer y diffynyddion) |
| Cenedlaethol | 87% | 5,185 | 87% | 3,309 | 91% | 190 |
| Ardal | 90% | 41 | 100% | 16 | 0% | 0 |

## AGWEDD 3: RHEOLI ACHOSION LLYSOEDD Y GORON

| CYFRADD Y TREIALON ANEFFEITHIOL | | |
|---|---|---|
| Targed Cenedlaethol | Perfformiad Cenedlaethol 2004-05 | Perfformiad Ardal 2004-05 |
| 18.5% | 15.8% | 10.4% |

## AGWEDD 4: SICRHAU CANLYNIADAU LLWYDDIANNUS

| CANLYNIADAU AFLWYDDIANNUS (FEL % O'R ACHOSION A GWBLHAWYD YN Y LLYS YNADON A LLYS Y GORON) | | |
|---|---|---|
| Targed Cenedlaethol | Perfformiad Cenedlaethol 2004-05 | Perfformiad Ardal 2004-05 |
| 21% | 19.6% | 12.3% |

| TROSEDDWYR Y DAETHPWYD Â HWY GERBRON Y LLYS | | |
|---|---|---|
| | Targed Ardal y CJS 2004-05 | Perfformiad Ardal y CJS 2004-05 |
| Yn erbyn llinell sylfaen 2001-02 | 16.3% | 1.6% |
| Nifer | 12,827 | 11,249 |

## AGWEDD 7: DATGELU

| DATGELIAD YR YMDRINIWYD AG EF YN BRIODOL MEWN ACHOSION YN Y LLYS YNADON A LLYS Y GORON PERFFORMIAD YN YSTOD Y CYLCH AROLYGU DIWETHAF | | |
|---|---|---|
| | Perfformiad Cenedlaethol | Perfformiad Ardal |
| Prawf sylfaenol yn y llysoedd ynadon | 71.6% | 77.2% |
| Prawf sylfaenol yn Llys y Goron | 79.9% | 68.4% |
| Prawf eilaidd yn Llys y Goron | 59.4% | 25.0% |
| Cyfartaledd cyffredinol | 70.3% | 56.9% |

## AGWEDD 11: RHEOLI ADNODDAU

| Perfformiad alldro'r gyllideb o ran costau gweinyddu nas neilltuwyd yn benodol (amrediadau diwedd y flwyddyn) | |
|---|---|
| 2003-04 | 2004-05 |
| 105.2% | 102.3% |

| Lleoli DCW (fel % o sesiynau'r llysoedd ynadon) | | | Arbedion HCA (fesul sesiwn) | | Absenoldeb oherwydd salwch (fesul cyflogai y flwyddyn) | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Targed Cenedlaethol 2005-06 | Perfformiad Cenedlaethol 2004-05 | Perfformiad Ardal | Perfformiad Cenedlaethol 2004 | Perfformiad Ardal 2004 | Targed Cenedlaethol | Perfformiad cenedlaethol 2004 | Perfformiad Ardal 2004 |
| 11.6% | 8.3% | 6.1% | £224 | £136 | 8 diwrnod | 8.7 diwrnod | 6.7 diwrnod |

## AGWEDD 14: ENNYN HYDER Y GYMUNED

| Hyder y cyhoedd yn effeithiolrwydd asiantaethau cyfiawnder troseddol i ddod â throseddwyr gerbron y llys (Arolwg Troseddau Prydain) | |
|---|---|
| Llinell Sylfaen Ardal y CJS 2002-03 | Ffigurau Ardal diweddaraf y CJS In 2004-05 |
| 46% (Mawrth 2003) | 53% (Rhagfyr 2004) |



Swyddfa Llundain
26/28 Old Queen Street, London, SW1P 9HP
Tel: (020) 7210 1197, Fax: (020) 7210 1195
Swyddfa Efrog
United House, Piccadilly, York, North Yorkshire, YO1 9PQ
Tel: 01904 54 5490, Fax: 01904 54 5492
www.hmcpsi.gov.uk

Os hoffech chi gael copi o'r adroddiad hwn mewn print mawr, braille, neu mewn iaith arall, cysylltwch â ni ar:
E-bost: Office@hmcpsi.gov.uk